**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**
—
**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

16 Tachwedd 2023

Annwyl John

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Biliau Diwygio wrthi'n craffu ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Yn ystod ein gwaith ar y Bil hwn, rydym wedi clywed tystiolaeth gan Fwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban a Boundaries Scotland ar 9 Tachwedd 2023, a chan Fwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru ar 15 Tachwedd 2023, a allai fod o ddiddordeb ac yn berthnasol i waith craffu eich Pwyllgor ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru).

Mae Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn cynnwys, ymhlith materion eraill, darpariaeth i:

- Ailgyflunio Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru fel Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, a rhoi iddo'r swyddogaeth o adolygu ac adrodd ar ffiniau etholiadol y Senedd.
- Cynyddu uchafswm nifer y comisiynwyr y caniateir eu penodi i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i saith (a gwneud darpariaeth gysylltiedig mewn perthynas â phersonau na chaniateir eu penodi'n aelodau o Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, ei brif weithredwr, neu gomisiynwyr cynorthwyol, ac mewn perthynas â chworwm).

Mae'r Memorandwm Esboniadol i Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn egluro bod y darpariaethau yn y Bil wedi'u llunio i adlewyrchu nid yn unig y swyddogaethau ychwanegol y bydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru sy'n bodoli ar hyn o bryd yn eu cyflawni o ganlyniad i'r Bil hwn, ond hefyd y rhai a fydd yn cael eu rhoi iddo yn sgil y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). Rydym yn deall y bydd y rhain yn cynnwys:

- Sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol at ddiben cyflawni swyddogaethau gweinyddu etholiadol, gan gynnwys cyfarwyddiadau a chyngor i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

- Y swyddogaethau a gyflawnir ar hyn o bryd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 9 Tachwedd 2023, rhybuddiodd Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban a Boundaries Scotland ynghylch y cynnig yn y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) y dylai Bwrdd Rheoli Etholiadol statudol Cymru fod yn rhan o swyddogaethau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Ar 15 Tachwedd 2023, dywedodd Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru pe bai trefniadau priodol yn cael eu rhoi ar waith, y gallai fod yn briodol sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol i Gymru o fewn Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

Yn gywir

David F. Rees.

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu’n Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.